

Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Adolygiad Blynyddol Cymru 2020

Tymor 2020



Animal &
Plant Health
Agency

Wel, byddai disgwyl cael tri thymor da yn olynol yn ofyn gormod. I wenynwyr yng Nghymru, mae 2020 wedi ein hatgoffa bod chwiwiau'r tywydd yn cael effaith enfawr ar lif neithdar a gallu ein gwenyn i'w gasglu. Fel y gwelodd ffermwyr yng Nghymru, mae wedi bod yn flwyddyn lle roedd y glaswellt yn araf i dyfu yn y gwanwyn, wedi'i ddilyn gan ddiffyg cyfleoedd traddodiadol i ladd gwair yn ystod mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst, a hynny heb sôn am bandemig y Coronafeirws.

Mae cyfyngiadau'r Coronafeirws wedi effeithio ar bob elfen o fywyd eleni. Yn ystod cyfnodau cychwynnol y cyfyngiadau symud ym mis Ebrill, roeddem ni, fel gweithwyr allweddol, yn ymateb i alwadau blaenoriaeth gan wenynwyr, ac yn treulio gweddill ein hamser yn cysylltu â phobl dros y ffôn neu drwy e-bost i ddiweddarau ein cofnodion, a gynigiodd dawelwch meddwl i'r gymuned gwenynwyr ein bod ni ar gael o hyd os oedd angen, ond nad oeddem yn ychwanegu at unrhyw risgiau. Dywedodd sawl un wrthym fod gofalu am eu gwenwyn wedi rhoi ymdeimlad braf o normalrwydd yn y byd newydd rhyfedd sydd ohoni. Yn ystod mis Mai, aethom allan ar fwy o ymweliadau arolygu a, gyda chymorth a dealltwriaeth ein gwenynwyr, gwelsom nad oedd cadw pellter cymdeithasol yn creu anawsterau sylweddol wrth gyflawni ein gwaith ac erbyn mis Mehefin, roedd pethau'n debycach i 'fusnes fel arfer'. Roedd ambell wenynwr yn nerfus ynghylch cael ymwelwyr neu wedi gofyn i ni ohirio'r arolygiad tan yn ddiweddarach yn y tymor a, lle nad oedd yn ymweliad blaenoriaeth, roeddem yn barod i wneud hynny.

Mae llawer o wenynwyr newydd yn dechrau cadw gwenyn o hyd ac, am na fu unrhyw achosion difrifol o afiechydon eleni, gwnaethom dreulio mwy o amser nag arfer gyda nhw. Gwelsom eu bod yn croesawu ein cyngor a'n cymorth am fod cyfyngiadau'r Coronafeirws yn aml wedi effeithio ar y rhwydweithiau cymorth arferol a ddarperir gan Gymdeithasau Gwenyna. Mewn gwirionedd, ymddengys fod y mwyafrif helaeth o wenynwyr yn falch iawn o gael ymweliad, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud, a'r cyfle i siarad â rhywun arall, hyd yn oed o bellter!

Y cnwd mêl: *Y cnwd mêl fesul cwch yn 2020, fel y cofnodwyd gan yr Arolygwyr Gwenyn Tymhorol yng Nghymru ar gyfer eu hardaloedd eu hunain, yw 19 pwys ar gyfartaledd. Mae hyn tua thraean o'r cnwd a gafwyd y llynedd, ac roedd hyd*



Bioamrywiaeth a lliw erwain yn y cwch gwenyn Llundain Frank Gellatly

Yr UWG, BeeBase a'r tîm yng Nghymru

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddwyd Adolygiad Cynllun Gwenyn Iach a Chynllun Gwenyn Iach 2030, gweler <http://www.nationalbeeunit.com/public/News/news.cfm#262>. Mae Defra, Llywodraeth Cymru a'r Uned Wenyn Genedlaethol wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i lunio adolygiad o'r cynnydd a wnaed o dan y Cynllun Gwenyn Iach gwreiddiol, sef glasbrint deng mlynedd a gyflwynwyd yn 2009 i wella iechyd gwenyn mêl ledled Cymru a Lloegr. Mae Cynllun Gwenyn Iach 2030 yn ddogfen gynhwysfawr yn cynnwys strategaethau at y dyfodol i ddiogelu a gwella llesiant ein gwenyn mêl, gan fanteisio ar ganfyddiadau'r adolygiad cyntaf a gwaith y Cynllun Gwenyn Iach yn ystod y 10 mlynedd cyntaf.

Y llynedd, collodd yr UWG ddau o'i hoelion wyth ac eleni, mae Kate Wilson, rheolwr y swyddfa a Lesley Debenham, Cymorth Gweinyddol, wedi symud i rolau gwahanol o fewn APHA dros dro. Caiff effaith colli'r swyddogion hyn yn y swyddfa ei lliniaru gan y ffaith bod Arolygwyr Gwenyn Tymhorol bellach yn gweithio'n llawn amser dros y gaeaf. Byddant yn cyflawni rolau gwahanol o fewn APHA gan gynnwys Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion a Chymorth Swyddfa UWG. Ym mis Mehefin eleni, newidiodd yr Arolygydd Gwenyn Tymhorol ar gyfer Sir Fynwy, Adam Parker, ei yrfa dros dro i ddod yn Rheolwr Cyngor a Beebase Swyddfa UWG.

Ym mis Mai, ar ôl rhywfaint o oedi oherwydd y cyfyngiadau symud, dechreuodd Paul Davies o gyffiniau Rhydaman fel Arolygydd Gwenyn Tymhorol newydd yn lle Ade Bowen, yn ardal Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae gan Paul gefndir addysgu a hanes hir o gadw gwenyn, ac mae'n dyblu gallu'r arolygiaeth yng Nghymru i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.

O 1 Ebrill 2021 ymlaen, gallwch ddefnyddio'r cyfleuster chwilio cod post ar dudalen manylion cyswllt BeeBase i weld pwy yw eich Arolygydd Gwenyn Tymhorol lleol. Gallwch gysylltu â'ch Arolygydd drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod o ddechrau mis Ebrill tan ddiwedd mis Medi. Yn ystod tymor y gaeaf, sef rhwng mis Hydref a mis Mawrth, dylech gyfeirio pob ymholiad at yr Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol.

Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol	Ardal	Manylion cyswllt
Frank Gellatly	Canol Sir Gaerfyrddin 01267 202732	07775 119480
Arolygwyr Gwenyn Tymhorol	Ardal	Manylion cyswllt
Jonathan Garratt	Ynys Môn, Gogledd Gwynedd a Chonwy	07775 119479
Tony Davis	Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam	07900 166018
Paul Aslin	De Gwynedd, Gogledd Powys,	07867 351605
Karen Smith	Ceredigion	07979 119374
Shane Jones	Powys	07827 552312
Chris Welton	Gogledd Sir Benfro, De-orllewin Ceredigion	07900 166143

Maggie Gill	De Sir Benfro, De Sir Gaerfyrddin	07979 119373
Paul Davies	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful	07557 566228
Daniel Baxter	Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr	07771 038646
	Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent	

Nifer y gwenynwyr a'r cychod gwenyn

Ar hyn o bryd mae 3,660 o wenynwyr yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru ar BeeBase, sef cronfa ddata ar-lein yr UWG. Rhyngddynt, mae ganddynt 21,840 o nythfeydd mewn 5,195 o wenynfeydd – sef cyfartaledd o 6 nythfa fesul gwenynwr a 4.2 nythfa fesul gwenynfa. Nid yw'r ffigurau hyn wedi newid rhyw lawer ers y llynedd ond maent yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y nythfeydd a gofrestrir. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gwaith adolygu data a gynhaliwyd gennym yn ystod y cyfyngiadau symud, gan ddiweddarau BeeBase a dileu manylion rhai a gafodd eu methu cyn hyn, nad ydynt yn cadw gwenyn mwyach.

Cwblhaodd mwy na 9,000 o wenynwyr y Cyfrif Cychod Gwenyn yn 2019 a lansiodd Cyfrif Cychod Gwenyn 2020 ar 2 Tachwedd, felly gallwch ddiweddarau eich cofnodion BeeBase i nodi cyfanswm y cychod gwenyn sy'n gaeafu. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw lefelau clefyd y gwenyn (foulbrood) mor isel â phosibl. Mae'r wybodaeth hon yn hollbwysig er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer achosion o glefyd neu blâu egsotig.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y gwenynwyr newydd sy'n cofrestru ar BeeBase yng Nghymru wedi amrywio – yn 2016 cofrestrodd 246 o wenynwyr newydd, gyda'r nifer hwn yn gostwng i 205 yn 2017, a 216 yn 2018, gan gynyddu unwaith eto i 317 yn 2019.

Cofrestru ar BeeBase

Gobeithio bod pob un ohonoch sy'n darllen hwn wedi cofrestru ar Beebase. Byddwch wedi eich cofrestru os byddwch wedi cael ymweliad gan eich Arolygydd Gwenyn Tymhorol, ond os nad ydych wedi cofrestru, dyma eich annog i wneud hynny. Mae'n rhad ac am ddim a chaiff eich holl fanylion eu cadw'n gyfrinachol. Byddwch yn cael budd o rybuddion e-bost pan ddeuir o hyd i achosion o glefyd y gwenyn neu blâu egsotig (gan gynnwys Cacynden Asia) yn ardal eich gwenynfeydd. Mae'r gymuned gwenynwyr ehangach yn cael budd am fod yr arolygwyr yn gwybod ble i chwilio am glefyd neu blâu fel bod modd rheoli achosion yn gyflym. Nid yw bod yn aelod o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru (WBKA) yn golygu eich bod wedi eich cofrestru'n awtomatig ar Beebase. Diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi cofrestru. Cofiwch gadw manylion am leoliadau eich gwenynfeydd yn gyfredol. Os byddwch wedi colli'ch cyfrinair BeeBase, cysylltwch â swyddfa UWG a fydd yn gallu ei ailosod. Gallwch gofrestru ar-lein (www.nationalbeeunit.com) neu drwy gysylltu â swyddfa UWG ar 0300 3030094 neu drwy eich Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol.

Mae'r graffiau a'r ffigurau yn yr adroddiad hwn ar gael ar dudalennau cyhoeddus Beebase, gwefan yr UWG, ac yn 'Bee Pests, Diseases and Maps'. Mae'r wefan hefyd yn

cynnig sawl tudalen o awgrymiadau, cyngor a thafenni y gellir eu lawrlwytho ar reoli clefydau a magu gwenyn.

Archwiliadau


Eleni, ymwelodd yr Arolygwyr Gwenyn Tymhorol â chyfanswm o 680 o wenywyr mewn 962 o wenynefydd gan archwilio 5,373 o nythfeydd yng Nghymru. Mae hyn yn dangos cynnydd yn nifer gwenynwyr a nythfeydd a archwiliwyd ond gostyngiad bach yn nifer y wenynefydd yr ymwelwyr â nhw o gymharu â 2019.

Gall gwenynwyr gysylltu â'u Harolygydd Gwenyn Rhanbarthol neu Dymhorol os bydd ganddynt unrhyw bryderon am glefyd gwenyn neu blâu. Os byddwch yn gweld unrhyw beth amheus, tynnwch lun os gallwch chi, a cheisiwch gael sampl o unrhyw bryfed. Gallwch anfon eich llun drwy neges llun neu e-bost at eich Arolygydd Gwenyn Tymhorol neu Ranbarthol, neu gallwch gysylltu â ni dros y ffôn i ddisgrifio'r broblem. Os na allwn ddiystyru'r posibilrwydd ei fod yn glefyd neu'n bla statudol, byddwn yn trefnu ymweliad am ddim. Noder ei bod yn ofyniad cyfreithiol i roi gwybod i'r UWG os byddwch yn gwybod neu'n amau bod clefyd neu bla statudol, hysbysadwy yn bresennol.


Clefydau a Phlâu

Clefydau hysbysadwy: Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn a Chlefyd Americanaidd y Gwenyn

Yn ystod y tymor hwn, cafodd clefyd y gwenyn ei ddiagnosisio mewn 19 o wenynefydd, gan effeithio ar 35 o nythfeydd. Mae'r ffigurau hyn yn debyg iawn i ffigurau'r llynedd. Daethom o hyd i Glefyd Americanaidd y Gwenyn mewn wenynefydd nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach yn Sir Benfro (Dyfed), gan wneud cynnydd sylweddol wrth ei reoli mewn ardal lle bu'n bresennol ers peth amser.



Nifer yr Achosion o Glefyd Americanaidd y Gwenyn yng Nghymru 2016 – 2020 (fesul sir a gadwyd)



Nifer yr Achosion o Glefyd Ewropeaidd y Gwenyn yng Nghymru 2016 – 2020 (fesul sir a gadwyd)

Daethom o hyd i achosion o Glefyd Americanaidd y Gwenyn yn Ne Powys ym mis Ebrill, yng Nghanolbarth a De Sir Benfro ym mis Mai a mis Mehefin ac yn ardal gogledd Abertawe ym mis Medi. Daethom o hyd i achosion o Glefyd Ewropeaidd y Gwenyn yn Ne Morgannwg a Morgannwg Ganol ym mis Ebrill, mis Mai, mis Mehefin a mis Awst, yn Sir Benfro ym mis Mai a mis Mehefin, yng Ngorllewin Morgannwg ym mis Gorffennaf, ym Mhowys ym mis Awst a mis Medi ac yn Sir Fynwy ym mis Medi.

Ceir manylion pellach gyda sgwariau grid am achosion o glefyd y gwenyn a gofnodwyd ar y tudalennau ar BeeBase sy'n ymdrin â chlefydau gwenyn yn www.nationalbeeunit.com.



Prawf gludiogrwydd Clefyd Americanaidd y Gwenyn clasurol Llundain Frank Gellatly



Larfâu yn gwingo gyda Chlefyd Ewropeaidd y Gwenyn Llundain Ben Bowen

Varroa

Mae Varroa wedi bod yn gymharol ysgafn eleni mewn llawer o ardaloedd, lle mae niferoedd cynyddol o nythfeydd yn ymdopi'n dda gyda llwythi gwiddon varroa isel nad oes angen eu trin. Ond rydym yn dal i weld nythfeydd sy'n dioddef yn ddifrifol ac y mae angen cymorth arnynt. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd monitro lefelau gwiddon varroa a bod yn barod i drin y nythfeydd hynny sydd angen triniaeth.

Gellir llwyddo i'w reoli gan ddefnyddio dulliau biotechnegol a chynhyrchion wedi'u hawdurdodi yn unol â'r cyfarwyddiadau. Dylid targedu triniaethau ar gyfer Varroa cyn i nythfeydd ddechrau cynhyrchu eu gwenyn 'gaeaf' ond bydd monitro lefelau varroa drwy gydol y tymor yn helpu i nodi p'un a oes angen trin y gwenyn ynghynt.

Bydd y rhan fwyaf o wenywyr profiadol yn gwneud dwy driniaeth ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn. Y mwyaf poblogaidd yw triniaethau yn seiliedig ar thymol sy'n dechrau ym mis Awst, ar ôl tynnu'r mêl a gwirio'r storfeydd, a thriniaeth gaeaf yn defnyddio cynnyrch yn seiliedig ar asid ocsalig ym mis Rhagfyr. Mae'r ddau yn cynnwys cynhwysion gweithredol na thybir bod risg y byddant yn hyrwyddo ymwrthedd mewn gwiddon wrth ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Mae varroa yn fector ar gyfer feirysau a fydd yn byrhau oes gwenyn ac, felly, yn effeithio ar allu chwilota nythfeydd yn ystod yr haf. Os caiff nythfeydd eu trin yn rhy hwyr yn y tymor, gall feirysau effeithio ar wenywyr y gaeaf neu gallent gael eu gwanhau gan y widdon varroa sy'n bwydo arnynt. Gallai hyn arwain at farwolaeth y nythfa yn ystod y gaeaf neu yn gynnar yn y gwanwyn.

Unwaith eto eleni, ni ychwanegwyd at y triniaethau cymeradwy sydd ar gael yn y DU ar gyfer varroa. Mae'r rhestr o'r rhai sydd wedi cael eu cofrestru i'w defnyddio gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol ar gael ar ei gwefan <https://www.vmd.defra.gov.uk/ProductInformationDatabase/Default.aspx> gyda'r Crynodeb o Nodweddion Cynnyrch sy'n rhoi manylion llawn am sut i'w defnyddio. Er mwyn gweld y rhestr lawn dewiswch 'Bees' ar y gwymplen o rywogaethau yn y ddolen chwilio am gynnyrch.

Mae'n ofniad cyfreithiol bod achosion o ddefnyddio unrhyw driniaethau'n cael eu cofnodi, a rhaid cadw'r cofnodion hyn am bum mlynedd o leiaf. Gellir gweld y manylion llawn ar BeeBase ynghyd â nifer o daflenni gwybodaeth am ddim ar wefan BeeBase, gan gynnwys y llyfryn 'Managing Varroa'.

Monitro Plâu Egsotig

Mae arolygwyr yr UWG wedi cynnal 125 o archwiliadau i fonitro plâu egsotig penodol eleni, ac yn ogystal â hyn, mae grŵp o wenywyr yng Nghymru yn gwirfoddoli i fonitro eu nythfeydd yn benodol am rywogaethau o blâu egsotig ar ran yr UWG. Mae deiliaid gwirfoddol y 'Gwenynfeydd Sentinel' hyn yn amddiffynfa rheng flaen werthfawr rhag plâu egsotig. Mae tua 15 o wenywyr sentinel gwirfoddol ym mhob un o'r wyth rhanbarth gwenyna (h.y. cyfanswm o 120 o wenywyr sentinel ledled Cymru a Lloegr). Caiff gwenynwyr eu dewis o gronfa ddata BeeBase yr UWG yn seiliedig ar eu hagosrwydd i fannau lle ceir risg ynghyd ag ychydig o wenywyr mewn ardaloedd nad ydynt yn gysylltiedig â mannau risg penodol er mwyn rhoi cwmplas rhanbarthol mwy cyflawn.

Mae mannau risg yn cynnwys porthladdoedd cludo nwyddau, mewnforywyr planhigion, meysydd awyr, mewnforywyr cynnyrch cychod gwenyn crai, mewnforywyr mêl a

mamwenyn. Mae dosbarthiad gwenynfeydd sentinel gwirfoddol mewn mannau lle ceir risg a mannau ar hap yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff plâu eu canfod ar gam cynnar. Rhoddir pecyn monitro a samplu i ddeiliaid gwenynfeydd sentinel gwirfoddol ac maent yn archwilio eu nythfeydd yn rheolaidd yn ôl protocolau safonol. Caiff samplau o falurion cychod gwenyn eu profi ddwywaith bob tymor i weld a ydynt yn cynnwys chwilen fach y cwch a gwiddon *Tropilaelaps*. Byddem yn falch o glywed gan unrhyw wenynwyr a fyddai'n awyddus i ymuno â'r cynllun.

Yn ogystal, drwy gytundeb â'r gwenynwyr, bydd arolygwyr UWG yn monitro gwenynfa ddethol 3 gwaith bob tymor ger bob un o'r 4 prif borthladd cludo nwyddau yng Nghymru oherwydd y risg uwch sy'n gysylltiedig â'r lleoliadau hyn, sef Aberdaugleddau, Port Talbot, Caergybi a Chasnewydd, yn nhrefn y tunelledd yr ymdrinnir ag ef.

Cacynen Goesfelen Asia

Bu lleihad eleni yn nifer cacwn coesfelen Asia a welwyd yn y DU, gyda dim ond un nyth Cacwn Asia wedi'i darganfod a'i dinistrio gan arolygwyr UWG mewn afallen yn Gosport, Hampshire ddydd Gwener 11 Medi. Digwyddodd hyn o ganlyniad i adroddiadau gan ddau unigolyn yn yr ardal, yr oedd un ohonynt yn cadw gwenyn a oedd wedi gweld Cacwn Asia yn bwyta ei rawnwin. Nyth fach ydoedd, tua 20cm o ddiometr. Cafodd gwenynwyr lleol wybod amdani gan y Timau Cacwn Asia ac mae gwaith monitro yn parhau yn yr ardal.



Cacynen Asia yn bwyta grawnwin
Ffotograff Gordon Brooks



Y nyth mewn afallen yn Gosport
Ffotograff Peter Davies

Mae gan yr UWG gysylltiadau agos â Chydgyssylltydd Cacynen Asia Llywodraeth Ynys Jersey a thîm o wirfoddolwyr, oherwydd eu lleoliad rhyngom â Ffrainc. Mae arolygwyr yr UWG wedi cynnal ymweliadau maes yno yn y gorffennol er mwyn dysgu o'u profiad. Ni fu cymaint o nythod Cacwn Asia ar Ynys Jersey eleni ychwaith, gyda 38 o nythod wedi'u dinistrio erbyn 15 Hydref, o gymharu â'r 83 a ganfuwyd erbyn diwedd 2019. Bydd y lleihad o ganlyniad rhannol i'r gwaith parhaus i ddifa nythod a mamwenyn sy'n eu sefydlu dros y blynyddoedd diwethaf. Rhesymau tebygol eraill a nodir yw lleithder a thymereddau amrywiol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth eleni, a olygodd fod y mamwenyn a oedd yn

gaeafu yn fwy agored i ymosodiad ffyngaid, a'r lleihad mewn traffig o Ffrainc oherwydd cyfyngiadau'r Coronafeirws, gan leihau nifer y mamwenyn sy'n cael eu cludo o dir mawr Ffrainc yn y gwanwyn.

Erbyn hyn, mae adran 'Rhoi gwybod am Gacwn Asia a welir yng Nghymru' ar wefan WBKA, gyda map rhyngweithiol sy'n rhoi manylion Cydgysylltwyr Cacwn Asia cymdeithasau lleol sydd wedi'u hyfforddi i adnabod Cacwn Asia a deall eu cylch bywyd a'u harferion chwilota. Gweler <http://www.wbka.com/asian-hornet-reporting/>

Rydym yn annog pawb i wneud y canlynol:

- lawrlwytho'r ap iPhone ac Android 'Asian Hornet Watch' sydd ar gael am ddim
- ymgysylltwch â sut mae cacwn a phryfed tebyg yn edrych
- cadw llygad ar blanhigion sy'n blodeuo'n hwyr yn yr haf fel iorwg lle bydd cacwn (a phryfed eraill) yn bwydo ar y blodau.
- rhoi gwybod os ydynt yn amau eu bod wedi gweld Cacwn Asia drwy ddefnyddio'r ap iPhone ac Android 'Asian Hornet Watch', drwy lenwi ffurflen rhoi gwybod ar-lein neu drwy e-bostio alernonnative@ceh.ac.uk.

Rydym ni yng Nghymru ar ben gogleddol ystod Cacyrn Asia, a thrwy weithio gyda'n gilydd, rydym yn gobeithio cadw'r rhywogaeth oresgynnol hon dan warchae a diogelu peillwyr pwysig ein cenedl.

Monitro Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn yr Eidal yn 2020

Mae gwybodaeth gan y Labordy Ymchwil Cenedlaethol ar gyfer Gwenynyddiaeth yn yr Eidal isod, wedi'i diweddarau ym mis Hydref 2020, yn dangos bod gwaith monitro helaeth yn cael ei gynnal ar gyfer Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn Sicily heb ganfod unrhyw chosion positif. Yn y cyfamser, yn rhanbarth Calabria ar y tir mawr, canfuwyd un wenynfa positif ac wyth Nuclews senitel positif, yn cynnwys larfâu a chwilod llawndwf.



MEWNFORION AC ALLFORION

Gwnaethom gynnal 8 archwiliad mewnforion yn ystod 2020 i chwilio am glefydau a phlâu egsoftig yng Nghymru, gan ymdrin â mewnforion pecynnau a mewnforion mamwenyn.

Mae'r DU wedi gadael yr UE, mae rheolau newydd yn gymwys o fis Ionawr 2021

Daw'r cyfnod pontio i ben eleni ar 31 Rhagfyr 2020. I gael gwybod sut y mae hyn yn effeithio ar Mewnforion ac Allforion gwenyn mêl o 1 Ionawr ymlaen, a'r hyn y gallwch ei wneud i baratoi, cyfeiriwch at y canllawiau ar [Gov.uk](https://www.gov.uk) a [Chynllun Gweithredu'r Ffin](#), sy'n darparu gwybodaeth am y prosesau newydd.

Ar gyfer symudiadau nôl ac ymlaen rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain, mae canllawiau ar gael ym [Mhrotocol Gogledd Iwerddon](#).

Os byddwch yn bwriadu mewnforio neu allforio gwenyn, eich cyfrifoldeb chi yw dilyn y rheolau newydd hyn a diogelu bioamrywiaeth Prydain.

Mae canllawiau ar newidiadau i fusnesau a dinasyddion ar gael yn <https://www.gov.uk/transition> lle gallwch ddefnyddio'r gwirydd Brexit i gael rhestr wedi'i phersonoli o gamau gweithredu.

Os ydych yn mewnforio gwenyn:

- [Cadarnhewch yr hyn sydd angen i chi ei wneud er mwyn mewnforio o'r UE o 1 Ionawr 2021](#)

Os na fyddwch wedi paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, bydd perygl na fyddwch yn gallu derbyn na dod â nwyddau o wledydd yr UE o 1 Ionawr 2021.

- [Gwiriwch yr hyn sydd angen i chi ei wneud er mwyn mewnforio anifeiliaid, cynhyrchion anifeiliaid, bwyd a phorthiant risg uchel i Brydain o 1 Ionawr 2021.](#)

Bydd prosesau newydd y bydd yn rhaid i fewnforwyr eu dilyn. Bydd y prosesau hyn i fewnforio o wlad yn yr UE yn cael eu cyflwyno mewn 3 cham:

- [1 Ionawr 2021](#)
- [1 Ebrill 2021](#) (wedi'i gynnwys er cyflawnder ond mae ond yn berthnasol i gynhyrchion anifeiliaid a bwyd a phorthiant risg uchel)
- [1 Gorffennaf 2021](#)
- **Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer System Mewnforio Cynhyrchion, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant newydd y DU ([IPAFFS](#))**

Ni fyddwch yn gallu mewnforio gan ddefnyddio system TRACES o 1 Ionawr 2021.

Rhagor o wybodaeth: [Mewnforio anifeiliaid, cynhyrchion anifeiliaid a bwyd a phorthiant risg uchel nad yw'n dod o anifeiliaid o 1 Ionawr 2021](#)

Mae cyfraith yr UE yn gwahardd neu'n cyfyngu ar fewnforion nwyddau penodol o drydydd gwledydd y tybir eu bod yn cyflwyno lefel annerbyniol o risg o ran anifeiliad, planhigion neu iechyd y cyhoedd. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau hyn yn cael eu trosi i gyfraith y DU ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Mae disgwyl y bydd Prydain a'r UE yn trin ei gilydd fel trydydd gwledydd o safbwynt iechyd gwenyn, felly mae'r cyfyngiadau a'r gwaharddiadau hyn yn atal masnach mewn gwenyn rhyngddynt ar hyn o bryd.

O ganlyniad, bydd mewnforwyr ond yn gallu mewnforio mamwenyn o'r UE. Bydd yn rhaid i unrhyw becynnau (gan gynnwys cewyll mamwenyn a gwenyn gweithgar) gael eu hanfon i labordy i'w harchwilio, ac yn achos gwenyn mêl, Fera Science yw hyn. Ni fydd modd mewnforio pecynnau na nythfeydd ar ôl 31 Rhagfyr 2020. O 1 Gorffennaf 2021, bydd yn rhaid i famwenyn a fewnforir basio drwy Fan Rheoli ar y Ffin. Ar hyn o bryd, dim ond Mannau Rheoli ar y Ffin ym meysydd awyr Heathrow a Manceinion sy'n derbyn mewnforien o infertebratau, gan gynnwys gwenyn. Bydd yr Uned Wenyn Genedlaethol yn parhau i gynnal gwiriadau ffisegol ar lwythi o famwenyn yn ôl risg.

Os byddwch yn allforio gwenyn:

- [Cadarnhewch yr hyn sydd angen i chi ei wneud er mwyn allforio o'r UE o 1 Ionawr 2021](#)

Os na fyddwch wedi paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, bydd perygl na fyddwch yn gallu anfon na mynd â nwyddau i wledydd yr UE o 1 Ionawr 2021.

Mae'r sefyllfa o ran allforion yn debyg i'r sefyllfa o ran mewnforien. Byddai'r UE hefyd yn ystyried y DU yn Drydedd Wlad. Bydd hyn yn golygu y bydd yr UE ond yn derbyn allforion o famwenyn o'r DU - ar yr amod ein bod wedi'u rhestru fel trydedd wlad a gymeradwyir i allforio i'r UE. Ni fydd yn bosibl allforio pecynnau a nythfeydd mwyach.

Cyngor Pellach:

Edrychwch ar y tudalennau Gov.uk y nodir dolenni ar eu cyfer uchod i gael mwy o fanylion a'r canllawiau diweddaraf. Caiff [tudalennau BeeBase](#), yn cynnwys canllawiau Mewnforio ac Allforio, eu diweddarau bob dydd er hwylustod.

Hyfforddiant i wenywyr

Fel gweddill y wlad, nid oes unrhyw ddigwyddiadau, sesiynau busnes nac adloniant, addysg na hyfforddiant, wedi'u nodi ar ein calendr o ddigwyddiadau, ond rydym yn gobeithio y bydd y sefyllfa'n wahanol y flwyddyn nesaf. I geisio gwneud yn iawn am hyn, mae ein rhaglen arolygu wedi cynnwys ymweld â llawer o wenywyr newydd lle rydym yn cynnig addysg 1:1, o bellter cymdeithasol, wrth ochr y cwch gwenyn.

Mae wedi bod yn bleser cael cefnogi Cymdeithas Gwenynwyr Cymru sydd wedi mynd ati'n rhagweithiol i drefnu gweminarau addysgiadol defnyddiol sydd wedi cael cynulleidfa eang ac maent wedi cael eu croesawu yng Nghymru a thu hwnt. Yn dilyn fy nghyflwyniad ar Gacynen Asia, rydym yn cynllunio gwenimar 'Adnabod Clefydau' yn y gwanwyn.



*Delio ag AFB yn Sir Benfro
Ffotograff Maggie Gill*



*Haid hwyr gydag eirin hirion!
Ffotograff Frank Gellatly*

Yn olaf

Mae gwenynwyr, fel garddwyr, bob amser yn obeithiol y bydd blwyddyn well i ddod ac mae'n bwysicach nag erioed i ni obeithio am hynny nawr. Ar ddechrau'r flwyddyn, nid oedd neb wedi disgwyl y byddem yn wynebu pandemig a chyfyngiadau symud ond rydym yn ffodus nad ydym wedi cael ein hamddifadu o'r pleser o reoli ein gwenyn yn dda, hyd yn oed os oedd y cynhaeaf mêl a gawsom yn siomedig. At hyn, roedd y mwyafrif helaeth o wenywyr yn falch o gael ymweliad gennym, yn enwedig yn ystod y cyfyngiadau symud, a chael cyfle i siarad â rhywun arall, hyd yn oed o bellter!

Diolch yn fawr i'r Arolygwyr Gwenyn Tymhorol am fynd o gwmpas, ac i chi am adael i ni archwilio eich gwenyn, ac edrychaf ymlaen at eich gweld y flwyddyn nesaf.

Frank Gellatly

Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol, Cymru | Regional Bee Inspector, Wales

National Bee Unit | Uned Wenyn Genedlaethol

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | Animal and Plant Health Agency (APHA)

Telephone/ Ffôn: 01267 202732 | Mobile/ Ffôn Symudol: 07775 119480 | Jabber 02082 257173

| Email/E-bost: francis.gellatly@apha.gov.uk

Website/ Gwefan: www.gov.uk/apha | Twitter/ Trydar: [@APHAgovuk](https://twitter.com/APHAgovuk) | Facebook: [aphagov](https://www.facebook.com/aphagov)

National Bee Unit Website (BeeBase)/ Gwefan: www.nationalbeeunit.com